S4C CÔR CYMRU CYNRADD 2019

cystadleuaeth | competition

Yn dilyn llwyddiant Côr Cymru Cynradd 2015 & 2017 mae S4C yn falch i gyhoeddi cystadleuaeth Côr Cymru Cynradd 2019.

Trefnir y gystadleuaeth gan gwmni Rondo a bydd y rownd derfynol ar **Sadwrn Ebrill 6ed 2019** yng Nghanolfan y Celfydyddau, Aberystwyth yn cael ei darlledu ar S4C.

Mae'r gystadleuaeth yma i gorau ysgolion cynradd academaidd ac nid i ysgolion perfformio.

Rhaid bod lleiafswm o 20 aelod ym mhob Côr.

Panel o feirniaid rhyngwladol fydd yn dewis y corau a bydd barn y panel yn derfynol.

Gwobr o £100 am gyrraedd y rownd derfynol.

Gwobr o £500 a thlws am ennill Côr Cymru Cynradd.

Dyddiad cau derbyn ceisiadau: 28.09.18.

Gwrandawiadau

Bydd pob côr yn cael eu recordio (sain yn unig) gan beiriannydd sain proffesiynol yn eu cynefin ym mis Tachwedd 2018. Dylai'r corau baratoi rhaglen amrywiol o gerddoriaeth rhwng 8-10 munud. Rhaid cynnwys o leiaf un darn di-gyfeiliant. Ni chaniateir golygu'r perfformiad, a chaiff pob côr gopi CD o'u perfformiad. Gwrandewir ar y recordiadau gan banel o feirniaid rhyngwladol, ac fe fydd y corau'n cael eu hadnabod fesul rhif, ac nid enw. Y gobaith yw hysbysu pob côr o ganlyniad eu gwrandawiad erbyn canol Ionawr 2019, pan y gwahoddir hyd at bedwar côr ym mhob categori i fynd ymlaen i'r rownd derfynol.

Y Rownd Derfynol

Gofynnir i'r corau sy'n cael eu dewis i fynd ymlaen i'r rownd derfynol baratoi rhaglen amrywiol o 8-10 munud o hyd. Dylid canu o leiaf un darn yn yr iaith Gymraeg, ac ni chaniateir mwy nag un darn yn yr iaith Saesneg. Rhaid i'r darn Saesneg fod o dan 3 munud o hyd. Caniateir canu darnau o'r clyweliad os y dymunir.

Gofynnir i'r corau:

- Erbyn **Chwefror 11eg 2019** fan bellaf gyflwyno **rhaglen y rownd derfynol** ar bapur neu trwy ebost.

- Erbyn **Chwefror 11eg 2019** fan bellaf anfon **copïau o'r gerddoriaeth** gyda unrhyw doriadau neu 'ail-ganu' wedi eu copïo mewn yn barod.

- Ni chaniateir newid y rhaglen ar ôl y dyddiad yma oni bai bod problem yn codi gyda chlirio hawlfraint darlledu darn arbennig.

- Erbyn **Chwefror 25ain 2019 gwybodaeth am unawdwyr, niferoedd, trefn sefyll a chyfeiliant**.

- Erbyn **Mawrth 4ydd 2019 fan bellaf recordiad gweledol** (fideo) wedi ei wneud ar ffôn/ipad/dablet o'r darnau fel mae nhw'n cael eu cyflwyno ar lwyfan.

Os ydych yn defnyddio cyfieithiad sydd heb ei gyhoeddi, mae angen caniatad ar bapur wrth y cyhoeddwyr os gwelwch yn dda. Cyfrifoldeb y corau yw talu am y cyfieithiadau ac am y caniatad i ddefnyddio'r cyfieithiadau ar S4C.

Mae gan S4C yr hawl i wrthod corau i gystadlu os nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r amodau.

Teithio i Aberystwyth

Bydd Rondo yn talu am fws i'r corau gyrraedd Aberystwyth.

Ni fydd Rondo yn cyfrannu tuag at gost llety yn Aberystwyth.

Cyfeiliant

Trwy gydol y gystadleuaeth, caniateir defnyddio hyd at 5 cerddor fel cyfeiliant i'r eitemau.

Cyfrifoldeb y côr yw trefnu'r cerddorion a thalu unrhyw ffioedd sy'n ddyledus trwy ddarlledu.
Mae croeso i gorau ysgolion cynradd gystadlu yng nghategori'r corau plant yng nghystadleuaeth Côr Cymru 2019 os y dymunir.

Bwriedir recordio yn yr ardaloedd canlynol fel a ganlyn:

Nos Iau	15.11.18	Caerdydd
Dydd Sul	18.11.18	Caerdydd
Nos Lun	19.11.18	Caerfyrddin
Nos Fawrth	20.11.18	Aberystwyth
Nos Fercher	21.11.18	Yr Wyddgrug
Nos Wener	23.11.18	Castell Newydd Emlyn
Dydd Sul	25.11.18	Bangor

Am fwy o fanylion, cysyllter â

Côr Cymru 2019
Rondo Llawr 9
Ty South Gate
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: **029 2022 3456** (Cost galwad arferol, gall y gost fod yn uwch drwy ffôn symudol)
E-bost: **corcymru@rondomedia.co.uk**

Gweler amodau llawn y gystadleuaeth ar **s4c.cymru/corcymru** neu **rondomedia.co.uk**

Gwarchod Data

Fe fyddwn ni'n cydymffurfio â'r cyfreithiau gwarchod data a'r egwyddorion sydd wedi eu gosod yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) gan gynnwys:

- Sicrhau defnydd cyfreithiol, teg a thryloyw o'ch data
- Ein bod dim ond yn casglu data at bwrpasau dilys yr ydym wedi eu nodi wrthych ac na fyddwn yn defnyddio'r data at bwrpasau eraill
- Bydd ein defnydd o'r data yn berthnasol i'r pwrpas rydym wedi ei nodi wrthych
- Bydd y data'n cael ei gadw'n gywir a'i ddiweddaru
- Byddwn yn cadw'r data am y cyfnod sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu'r pwrpas rydym wedi nodi
- Byddwn yn cadw'r data'n ddiogel

Y math o ddata byddwn yn ei ddal

Mae'r holl wybodaeth y byddwn yn ei gasglu gennych yn cynnwys y wybodaeth y byddwch wedi ei rannu gyda ni ar gyfer y Rhaglen ond hefyd unrhyw wybodaeth bellach y byddwch yn ei rannu gyda ni wrth gynnal y gystadleuaeth ac wrth gynhyrchu'r Rhaglen gan gynnwys enwau, cyfeiriad, ebost, rhifau ffon ac ati.

Mae'n bosib y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am iechyd ac unrhyw anghenion arbennig sy'n berthnasol i chi neu eich plentyn er mwyn gwneud trefniadau priodol wrth gynhyrchu'r Rhaglen.

Ein defnydd o'r wybodaeth

Rydym eisiau bod yn dryloyw o ran y defnydd a wnawn o'ch gwybodaeth fel eich bod yn deall sut a pham ein bod yn ei chasglu ac yn ei defnyddio, ac er mwyn i chi wybod y gallwch ymddiried ynom bob amser.

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn asesu eich addasrwydd ar gyfer cymryd rhan yn y Rhaglen, i gysylltu â chi ynglyn â threfniadau yn ymwneud â chynhyrchu'r Rhaglen ac er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Mae gan Rondo ddiddordeb dilys (legitimate interest) i brosesu eich data ar gyfer gallu cynhyrchu'r Rhaglen. Unig bwrpas gofyn am wybodaeth amdanoch yw i allogi Rondo i gynhyrchu'r gystadleuaeth a'r gyfres deledu ar gyfer S4C mewn modd adloniannol ac er mwyn cydymffurfio gyda'n oblygiadau cytundebol wrth gynhyrchu'r gyfres ar gyfer S4C.

A fydd Rondo'n rhannu fy ngwybodaeth personol ag eraill?

Fe fydd Rondo'n rhannu peth o'r data gydag S4C er mwyn ateb gofynion cytundebol Rondo gyda S4C ac er mwyn trafod elfennau'r Rhaglen gydag S4C. Mae'n ofynnol ar i S4C i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol er mwyn gwarchod y data ac mae gan S4C brosesau priodol mewn lle er mwyn sicrhau hynny.

Ni fydd Rondo yn gwerthu eich data i unrhyw un arall. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth ymlaen i sefydliad gwahanol, (ag eithrio S4C fel rhan o gynhyrchu'r gyfres), ond gyda'ch caniatâd chi.

Bydd Rondo yn gofalu am eich gwybodaeth wrth ei storio'n ddiogel ar ein Sustem Rheoli Cynnwys ar ein cyfrifiaduron ac mewn ffurfiau eraill diogel. Byddwn yn cyfyngu mynediad i'r wybodaeth i'r gweithwyr hynny yn unig sydd angen gwybod yr wybodaeth er mwyn cynhyrchu'r Rhaglen. Fe fydd yr unigolion hynny'n prosesu eich data yn dilyn cyfarwyddyd gennym ni yn unig ac o dan ymrwymiad o gyfrinachedd.

Byddwn yn cadw'r wybodaeth am hyd cyfnod cynhyrchu'r gyfres ar gyfer S4C ac yna yn ei waredu oni bai bod rhesymau cytundebol neu gyfreithiol fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Rondo ac S4C gadw elfennau o'r wybodaeth at bwrpasau darlledu ac archifo'r Rhaglen.

S4C CÔR CYMRU CYNRADD 2019

cystadleuaeth | competition

Following the success of Côr Cymru Cynradd 2015 & 2017 S4C is delighted to announce Côr Cymru Cynradd 2019 – a choral competition for primary schools in Wales.

The competition is organised by Rondo Media and the final round on **Saturday April 6th 2019** at the Aberystwyth Arts Centre will be broadcast on S4C.

The competition is open to choirs from academic primary schools and not performing schools.

Each choir should have a minimum of 20 members.

An international panel of judges will select the choirs and the jury's decision will be final.

There will be a prize of £100 for reaching the final round.

The winner of Côr Cymru Cynradd will receive a prize of £500 and trophy.

Closing date for entries: 28.09.18

Auditions

Each choir will be recorded (sound only) by a professional sound engineer in their local area during November 2018. Choirs should prepare a varied programme of 8-10 minutes. Please include one unaccompanied item. The performance will not be edited and each choir will receive a CD copy of their performance. An international panel of judges will listen to the recordings and choirs will be identified by number, not name. We aim to inform choirs of the results by mid January 2019 when up to four choirs will be selected to proceed to the final.

The Final

The choirs selected to proceed to the final round are required to perform a varied programme of 8-10 minutes. At least one piece in the Welsh language should be included, and not more than one piece in the English language. The English language piece should be no longer than 3 minutes in duration. Choirs are allowed to sing pieces from their audition if desired.

If you are performing a translation of a piece that is not published, then permission needs to be sought from the translator, and S4C will need to see the documentation. It is the choir's responsibility to pay for any translations and for the right to broadcast the translation.

Choirs are required to:

- By **February 11th 2019** at the latest to present their programme for the **final** by letter or email to the organisers.

- **By February 11th 2019** send copies of your music to the organisers with any cuts/repeats copied in.

- No changes to the programme will be allowed after this date unless a problem arises with the clearing of broadcasting rights of a certain item.

- By **February 25th 2019** send details of any soloists, accompaniment, numbers in the choir and choir lay out on stage.

- **By March 4th 2019** send **a video recording** of the choral items as they are presented on stage filmed on a phone/tablet/ipad.

- S4C has the right to ask a choir to change its programme should a problem arise with broadcast copyright.

- **S4C has the right to stop choirs from competing unless they comply with the conditions of the competition.**

Travel to Aberystwyth

Rondo Media will pay for coaches for the choirs to reach Aberystwyth.
Rondo Media will not pay for accommodation costs in Aberystwyth.

Accompaniment
Throughout the competition, up to 5 musicians are allowed to provide accompaniment to the musical items.

It is the choir's responsibility to arrange the musicians and pay any broadcast fees that may be due.

Primary School Choirs are welcome to enter the children's category in Côr Cymru 2019 if desired.

We **aim** to record in the following areas as follows:

Thursday evening	15.11.18	Cardiff
Sunday	18.11.18	Cardiff
Monday evening	19.11.18	Carmarthen
Tuesday evening	20.11.18	Aberystwyth
Wednesday eve	21.11.18	Mold
Friday evening	23.11.18	Newcastle Emlyn
Sunday	25.11.18	Bangor

For more information, please contact:

Côr Cymru 2019
Rondo 9th Floor
South Gate House
Cardiff CF10 1EW

Tel: **029 2022 3456** (Standard rate call charges apply, costs could be higher using a mobile phone)
Email: **corcymru@rondomedia.co.uk**

Competition rules can be seen on **s4c.cymru/corcymru** or **rondomedia.co.uk**

Data Protection

Rondo will comply with data protection laws and with the principles as laid out in the General Data Protection Regulation (GDPR) including:

- Ensuring that all of your data is treated fairly, transparently and legally
- We will only collect data for any appropriate usage that we have made known to you and we will not use this data for any other purposes
- We will ensure that our use of the data is relevant to the purpose that has been made known to you
- The data will be kept correct and will be updated as necessary
- The data will be kept for the relevant period to meet the requirements laid out by us
- The data will be stored safely

The type of data we will hold

The information we will collect will include the details that you have shared with us for the purposes of the Programme and any additional information you will share with us as we produce the event and the Programme including your name, address, email and phone number details.

It is possible that we will also collect information about your health and any special requirements relevant to you in order for us to make the relevant arrangements as we produce the Programme.

Our usage of the information

We want to be transparent in terms of the usage of your personal information so that you fully understand how and why it is being collected and used by us and for you to be assured that you can always trust us in regards to this matter.

We will use your personal information in order to assess your suitability to take part in the Programme, to contact you regarding any arrangements involved with the production of the Programme and in order also to comply with any legal and regulatory requirements.

Rondo has a legitimate interest to process your data as part of the procedure of producing the Programme. The sole pupose of asking for this personal information is to enable Rondo to produce the competition and the television series for S4C in an entertaining way and in order to comply with our contractual obligations as we produce the series for S4C.

Will Rondo share my personal information with anyone else?

Rondo will share some of the data with S4C in order to fulfil Rondo's contractual obligations with S4C and so that Rondo can discuss elements of the Programme with S4C. The broadcaster S4C is required to comply with any legal requirements in order to protect the data and S4C has the relevant processes in place in order to fulfil these requirements.

Rondo shall not sell your data to anyone else. Nor shall we pass on your information to any other organisation, (apart from S4C as part of the process of producing the series), without first receiving your permission to do so, or in the limited situation as noted here.

Rondo will take care of your information and store it safely on the Content Management System on our computers and through other safe methods. We will limit access to this information solely to those workers who need the information in order to produce the Programme. Those individuals will process your data in accordance with our sole direction and commitment to confidentiality protection.

We will retain the information for the period of producing the series for S4C and then will dispose of it unless there are contractual or legal requirements that result in Rondo and S4C having to retain some elements of the information for the purposes of broadcasting and archiving the Programme.